

### **Beth fyddaf yn ei ddysgu?**

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu am:-

- Yr ystod o gyfleoedd gwaith a'r mathau o gwmnïau y medrech weithio ynddynt yn y diwydiant hwn.
- Sut brofiad fyddai i weithio mewn diwydiannau cefn gwlad.
- Sgiliau stad er enghraifft ffensio, plygu gwrych a chodi waliau cerrig.
- Sgiliau coedwigaeth er enghraifft cynnal a chadw lliw gadwyn, plannu coed a chynnal coetir.
- Sgiliau melin goed er enghraifft prosesu, hollti a thrin coed.
- Gwaith amgylcheddol er enghraifft asesu a chynnal a chadw ac amddiffyn cynefinoedd, a bywyd gwyllt.
- Materion iechyd a diogelwch yn y gweithle.

### **Sut fyddaf yn dysgu?**

Mae'r cwrs yn bartneriaeth rhwng ysgolion uwchradd Arfon a Choleg Meirion Dwyfor, Glynllifon yn cyfateb i 2 TGAU a chaiff ei gefnogi gan ddiwydiannau lleol. Byddwch yn treulio bore neu brynhawn llawn ar safle Glynllifon

Bydd eich ysgol yn trefnu cludiant am ddim i chi i ac o Glynllifon.

Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ymarferol ac ystafell ddosbarth a byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu. Bydd gofyniad i wneud rhywfaint o waith cwrs tu allan i'r Coleg.

### **Beth fyddaf ei angen?**

Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr wisgo offer amddiffynnol personol (OAP) addas, sydd yn cynnwys esgidiau diogelwch ac oferôls.

### **Sut fyddaf yn cael fy asesu?**

Byddwch yn cynhyrchu gwaith a asesir gan eich tiwtor cwrs a'r bwrdd arholi.

### **Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn?**

Ar ddiwedd y cwrs hwn, dyma rai o'r llwybrau ar gael:-

- Dilyn cwrs llawn amser Lefel 2 neu Lefel 3 Rheolaeth Gefn Gwlad ar safle Glynllifon.
- Dilyn un o amrywiaeth o gyrsiau academaidd neu alwedigaethol un ai yn un o safleoedd Grŵp Llandrillo Menai neu yn yr ysgol.
- Gweithio yn y diwydiant cefn gwlad a'r amgylchedd

### **Syniadau Gyrfaoi**

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Rheolwr Stad
- Meddyg Coed